

Cofnodion



Cabinet

Dyddiad: Dydd Mercher, 12 Chwefror 2020

Amser: 4.00 pm

Lleoliad: Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), R Jeavons, P Cockeram, G Giles, D Harvey, D Mayer, R Truman, D Davies and M Rahman

Ms Sheila Davies; Ms Beverly Owen; Mr Gareth Price; Mr Meirion Rushworth.

1 Ymddiheuriadau dros Absenoldeb

Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau.

2 Datganiadau o ddiddordeb

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2020 fel cofnod cywir.

4 Strategaeth Gyfalaf a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a chadarnhaodd ei fod yn cynnwys y Strategaeth Gyfalaf a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a bod angen i gyfarfod y Cyngor llawn eu cymeradwyo. Cadarnhaodd yr adroddiad:

- (i) y rhaglen cyfalaf, yn rhan o'r Strategaeth Gyfalaf, a'r
- (ii) gwahanol derfynau benthyca a dangosyddion eraill yn rhan o Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn nodi'r cyd-destun hirdymor (10 mlynedd) ar gyfer gwneud penderfyniadau cyfalaf ac mae'n dangos bod yr awdurdod lleol:

- yn cymryd penderfyniadau cyfalaf/buddsoddi yn unol ag amcanion y gwasanaeth;
- yn rhoi ystyriaeth i risg/gwobr ac effaith;
- yn ystyried stiwardiaeth, gwerth am arian, gochelgarwch, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.

Mae cynlluniau cyfalaf yr Awdurdod wedi'u cysylltu'n gynhenid â gweithgareddau rheoli'r trysorlys y mae'n ymgymryd â nhw, felly mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn cael ei chynnwys ar y cyd ag adroddiad y Strategaeth Gyfalaf. Mae'r adroddiad yn nodi bod effaith refeniw'r ddwy strategaeth wedi'i chynnwys yn yr adroddiad cysylltiedig ar y gyllideb refeniw. Atodiadau i'r adroddiad wedi eu cynnwys:

- Atodiad 1 – manylion y rhaglen gyfalaf bresennol;

- Atodiad 2 - y Strategaeth Cyfalaf tymor hirach, ac,
- Atodiad 3 - Strategaeth a Rheolaeth y Trysorlys.

Canolbwyntiodd yr Arweinydd yn gyntaf ar Strategaeth Cyfalaf 2019/20 i 2028/29 sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth cyfalaf y Cyngor ac mae'n unol â'r gofyniad a osodir ar Awdurdodau Lleol gan y Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (2017) i bennu Strategaeth Cyfalaf.

Dywedodd yr Arweinydd fod Cod CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol benderfynu ar eu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) a'r Dangosyddion Darbodus (DDau) yn flynyddol; mae hyn yn gofyn am gymeradwyaeth gan gyfarfod llawn o'r cyngor yn dilyn argymhelliad gan y Cabinet. Cadarnhaodd yr Arweinydd y bydd hyn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau a'i ddwyn i sylw'r Cyngor yn ôl yr angen.

Mae meysydd allweddol yn cynnwys:

- (i) ymestyn rhaglen cyfalaf 5 mlynedd bresennol 2022/23 tan 2024/25 ar gyfer y prosiectau hynny a gymeradwywyd sydd y tu hwnt i'r rhaglen gyfredol a'i chost ariannu;
- (ii) yr amcanestyniad tymor hirach ar gyfer costau ariannu cyfalaf.

O ran y rhaglen cyfalaf 5 mlynedd – cadarnhaodd yr Arweinydd fod y Cabinet, ym mis Chwefror 2018, wedi cymeradwyo rhaglen cyfalaf 5 mlynedd newydd o 2018/19 i 2022/23 - mae paragraff 13 yr adroddiad yn cyfeirio at hyn. Eglurodd yr Arweinydd fod y strategaeth cyfalaf yn amlinellu'r broses ar gyfer cymeradwyo prosiectau i'r rhaglen cyfalaf, gan sicrhau eu bod yn bodloni blaenoriaethau gwasanaeth allweddol ac, yn gyffredinol, yn cadw o fewn cyrraedd i fforddiadwyedd.

Yn 2020/21, mae gan y Cyngor gynlluniau cyfalaf gwerth £44.6 miliwn. Dros y rhaglen 5 mlynedd a fydd yn dod i ben 2024/25, mae'r rhaglen yn un uchelgeisiol gyda:

- tua £186 miliwn o brosiectau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo;
- tua £16 miliwn o arian cyfalaf ychwanegol ar gyfer prosiectau pellach, gwerth cyfanswm o £202 miliwn.
- Mae'r Cyngor yn buddsoddi dros £70 miliwn yn ei ysgolion, yn ei asedau hanesyddol a diwylliannol megis y Bont Gludo, yn cefnogi ailddatblygiad canol y ddinas, gan ddarparu 'hybiau cymdogaeth' modern, addas ar gyfer y dyfodol a chreu capasiti yn ei chyfleusterau ailgylchu a gwastraff. Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran cyflawni'r rhain.

Dangosir y costau cyllido cyfalaf yn nhabl 2 yr adroddiad; mae'r costau wedi'u cynnwys yn CATC y Cyngor, a chadarnhaodd yr Arweinydd yn yr hinsawdd/ansicrwydd ariannol presennol a'r cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau, eu bod yn heriol. Nododd yr adroddiad y bydd costau'n parhau i gynyddu yn y tymor canolig i'r hirdymor. O gymharu ag awdurdodau tebyg, mae canran y costau cyfalaf fel cyfran o gyfanswm refeniw net y Cyngor yn uchel iawn, gan ddangos yr angen i gynnal lefel gynaliadwy o wariant ar gyfalaf er mwyn cadw'r costau i lawr. Caiff gwaith ychwanegol ei gynllunio gan gydweithwyr cyllid er mwyn bwrw goleuni ar y mater hwn.

Cadarnhaodd yr adroddiad fod gwariant cyfalaf a ariennir gan ddyledion yn cynyddu'r angen i fenthycu'n allanol. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig ac mae'n ofynnol iddo fod yn fenthyciwr net am y tymor hir; er mwyn sicrhau bod y benthyca hwn yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, mae'n ofynnol i'r Cyngor bennu terfyn benthyca fforddiadwy - a ddangosir yn nhabl 3 yr adroddiad. Ymhlith y ffactorau a gynhwyswyd wrth gyrraedd y terfynau benthyca hyn y mae:

- Y gofyniad benthycy allanol presennol sy'n dod o'r rhaglen cyfalaf ac yn cyflwyno swm cyfyngedig o fenthycy cynnar i ddisodli benthycy mewnol lle y bo'n briodol;
- Y gallu i fenthycy ar gyfer benthyciadau ymlaen i drydydd partïon at ddibenion adfywio, sy'n amlwg yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy llym;
- Hyblygrwydd i fenthycy ar gyfer buddsoddi/creu incwm/cyfleoedd masnacheiddio (yn amodol ar drefniadau llywodraethiant).

Mae Adran 6 y Strategaeth Cyfalaf yn manylu ar weithgareddau masnachol y Cyngor, gan gynnwys cymeradwyo cronfa fuddsoddi £50 miliwn ar gyfer buddsoddiadau mewn eiddo masnachol, sydd wedi'i chynnwys yn y terfynau benthycy a nodir yn yr adroddiad. Nid yw'r gronfa hon wedi'i defnyddio eto ac mae angen adolygu'r defnydd a wneir o'r gronfa yn y dyfodol, yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn benthyciadau a chanllawiau gan CIPFA yn ddiweddar ar gyfer awdurdodau sy'n buddsoddi mewn cronfeydd eiddo.

O ran Strategaeth a Rheolaeth y Trysorlys, cadarnhaodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn ymwneud â dau fath o weithgaredd y Trysorlys sy'n cael eu rheoli'n bennaf drwy Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ac yn unol â'r rheoliadau sy'n gysylltiedig â'r strategaeth honno, sef:

- (i) Benthycy yn y tymor hir at ddibenion cyfalaf a thymor byr ar gyfer llif arian dros dro;
- (ii) Buddsoddi arian dros ben.

O ran Strategaeth Benthycy'r Cyngor, cadarnhaodd yr arweinydd fod gan y Cyngor ofynion benthycy hirdymor sylweddol ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r strategaeth wedi gallu ariannu ei gwariant cyfalaf drwy leihau buddsoddiadau yn hytrach na gwneud mwy o fenthycy ychwanegol drud.

O 31 Mawrth 2019, roedd gan y Cyngor fenthyciadau mewnol o tua £84 miliwn; roedd yr Arweinydd yn falch o gadarnhau bod hyn yn creu arbediad o tua £2.5 miliwn mewn costau llog.

Cadarnhaodd yr Arweinydd ymhellach fod terfyn y gallu i gael ei fenthycy yn fewnol wedi'i gyrraedd ac y byddai gofyn i ofynion benthycy ddod o fenthyciadau allanol newydd. Yn ogystal, wrth i'r Cyngor leihau ei gronfeydd wrth gefn, yn bennaf drwy ddefnyddio ei gronfeydd PFI wrth gefn, bydd angen iddo ddisodli'r terfyn is hwn ar gyfer benthycy mewnol gyda benthycy allanol newydd hefyd. Mae hwn yn fater pwysig ac arwyddocaol ac fel yr argymhellwyd yn y Strategaeth Cyfalaf, mae angen i'r Cyngor gynnal lefel gynaliadwy o wariant cyfalaf.

O ran buddsoddiadau - mae Cod CIPFA a chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod fuddsoddi ei arian yn ddoeth, a rhoi sylw i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd enillion, neu'r incwm uchaf. Amcan yr awdurdod wrth fuddsoddi arian yw taro cydbwysedd priodol rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o ddiodef colledion.

O ystyried y risg gynyddol a'r adenillion isel iawn o fuddsoddiadau banc diwarant tymor byr, mae'r awdurdod yn anelu at arallgyfeirio i ddosbarthiadau asedau cynhyrchiant uwch yn ystod 2020/21. Mae hyn yn arbennig o wir am y £10 miliwn sydd ar gael ar gyfer buddsoddiad tymor hwy. Bydd yr arallgyfeirio hwn yn cynrychioli newid yn y strategaeth dros y flwyddyn nesaf.

Gorffennodd yr Arweinydd drwy gadarnhau bod y strategaethau'n gynhwysfawr iawn a chadarnhawyd bod yr adroddiad yn rhoi crynodeb defnyddiol o'r negeseuon allweddol.

Gwahoddodd yr Arweinydd sylwadau gan ei chyd-Weinidogion yn y Cabinet:

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd (AC ar gyfer Gwasanaethau'r Ddinas) at dudalen 57 yr adroddiad - Rhagolwg cyfradd llog - a holodd a fyddai'r gyfradd sylfaenol ar ragolygon benthycia yn debygol o newid. Dywedodd y Pennaeth Cyllid nad oedd unrhyw wybodaeth bellach wedi'i chael ers ysgrifennu'r adroddiad a rhagwelir yn gyffredinol y bydd y cyfraddau'n is am gyfnod hwy (er iddo bwysleisio na ellir dehongli bod hyn yn rhoi cyngor ar y mater hwn).

Tynnodd yr AC ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol sylw cynnar at y ffaith bod cynlluniau sy'n cael eu hariannu gan y cynllun grant cyfleusterau anabledd yn mynd yn ddrud iawn a'r arwyddion yw na fydd y gronfa'n gallu ymdopi â'r costau ychwanegol.

Penderfyniad:

Cytunodd y Cabinet i argymhell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r:

- i) Strategaeth Cyfalaf (Atodiad 2), gan gynnwys y rhaglen cyfalaf gyfredol sydd ynddi (a ddangosir ar wahân yn Atodiad 1), ei dangosyddion darbodus cysylltiedig a'r gofynion benthycia/terfynau sydd eu hangen i gyflawni'r rhaglen gyfalaf bresennol, gan nodi'r costau refeniw uwch yn y CATC ar gyfer y benthyciadau uwch;
- ii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a dangosyddion rheoli'r Trysorlys, y strategaeth fuddsoddi a'r Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer 2020/21 (Atodiad 3);
- iii) nodi'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio ar 29 Ionawr 2020 (paragraffau 6 a 7).

5 Cyllideb Refeniw a MTFP: Cynigion Terfynol

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i'r Cabinet a chadarnhaodd ei fod yn cynnwys canlyniadau'r ymgynghoriad ar y gyllideb ddrafft a nodwyd yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2019 a'r sefyllfa bresennol ar amlen ariannu'r Cyngor ar ôl derbyn y grant cynnal refeniw drafft ar gyfer 2020/21.

O ystyried yr uchod, mae angen i'r Cabinet gytuno'r cynigion cyllideb terfynol, gan gynnwys lefel y Dreth Gyngor a argymhellwyd. Caiff lefel y Dreth Gyngor ei hadolygu a'i chytuno yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ddydd Iau 27 Chwefror 2020.

Roedd y gyllideb ddrafft yn seiliedig ar nifer o dybiaethau, a'r un allweddol oedd setliad y Grant Cynnal Refeniw ond hefyd, er enghraifft, ar bethau fel lefelau darpariaeth ar gyfer codiadau cyflog a chynnydd mewn prisiau contractau.

Cadarnhaodd yr Arweinydd, ers cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, fod yr awdurdod wedi cael:

- cadarnhad o'r grant cynnal refeniw;
- cadarnhad o'r symiau ardollau;
- cadarnhad o gynnydd isafswm cyflog y DU (sy'n effeithio ar nifer o brisiau contractau gofal cymdeithasol allweddol);
- mae trafodaethau cyflog cenedlaethol ar gyfer staff Llywodraeth Leol wedi parhau;
- mae cwpl o gynigion newydd ar gyfer arbedion yn y gyllideb wedi'u cadarnhau hefyd, nad oes angen ymgynghori'n ehangach â'r cyhoedd yn eu cylch, ac sy'n cael eu gweithredu o dan ddirprwyaethau Penaethiaid Gwasanaethau.

Dangosir y sefyllfa ar ddyddiad heddiw a sut y mae'r sefyllfa wedi newid ers y gyllideb ddrafft a adroddwyd ym mis Rhagfyr 2019 yn nhabl 2 yr adroddiad. Yn gwyno:

- roedd bwlch yn y gyllideb o tua £5.6 miliwn bryd hynny;
- roedd y grant cymorth refeniw yn well na'r disgwyl yn rhoi tua £7.3 miliwn yn fwy o gyllid nag a dybiwyd i ddechrau;
- arbedion o tua £5.2 miliwn a nodwyd eisoes ym mis Rhagfyr 2019 a nodwyd dau gynnig arall a oedd yn cyfateb i £300,000;
- ystyried a chymeradwyo pwysau cost pellach o £1.8 miliwn (a ddangosir yn nhabl 1) gan y Cabinet a manteisio ar y cyfle i atal y ddibyniaeth ar gronfeydd wrth gefn er mwyn mantoli'r gyllideb.

Manylir ar y pwysau o ran costau ac arbedion newydd o fewn yr atodiadau ar gyfer costau a chynilion yn yr adroddiad sydd wedi arwain at sefyllfa heddiw o falans o £3.9 miliwn mewn llaw.

Wrth ystyried beth i'w wneud â'r balans mewn llaw, ystyriodd y Cabinet yr adborth i'r ymgynghoriad ar y gyllideb – ar y cynigion drafft eu hunain a'r asesiadau effaith drafft cysylltiedig ar degwch a chydaddoldeb (AEDCh). Lle bo angen, mae'r AEDCh wedi cael ei ddiweddarau ac mae'r Cabinet wedi ystyried y rhain wrth ddod i benderfyniad terfynol.

Roedd yr Arweinydd yn falch o weld y gwaith yr oedd y Comisiwn tegwch wedi'i wneud ar ddatblygu matrices newydd i gynorthwyo eu hymateb i'r ymgynghoriad.

Diolchodd yr Arweinydd i'w chydweithwyr yn y Cabinet am y sylw a dalwyd i'r broses ymgynghori a'r diwydrwydd a roddwyd i'r ymatebion a ddaeth i law; diolchodd yr Arweinydd i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad hefyd. Mae manylion yr ymarfer a nifer yr ymatebion a gafwyd wedi'u cynnwys yn adran 6 yr adroddiad; Nododd yr arweinydd y canlynol:

- 3,800 o ymatebion gan y cyhoedd, y nifer uchaf a dderbyniwyd hyd yn hyn;
- Digwyddiad cyhoeddus llwyddiannus a gynhaliwyd yng Nghanolfan Casnewydd;
- Adborth gan nifer o sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau defnyddwyr a phartïon â diddordeb yn ogystal â grwpiau mewnol y Cyngor fel pwyllgorau craffu yn ogystal â Chomisiwn Tegwch y Cyngor.

Aeth yr arweinydd ymlaen i siarad am benderfyniadau'r gyllideb derfynol a chadarnhaodd fod y Cabinet wedi ystyried yr holl adborth a chynghor a'r cynigion terfynol canlynol ynghylch sut i ddefnyddio'r balans mewn llaw o £3.9 miliwn, a lefel y Dreth Gyngor, wedi'i gwneud:

O ran buddsoddi, mae'r Cabinet yn bwriadu buddsoddi:

- £1.4 miliwn yn ychwanegol mewn cyllidebau ysgolion;
- £250,000 yn ychwanegol yng nghyllidebau TGCh y Cyngor i gyflymu ffyrdd modern o weithio a digideiddio;
- £70,000 mewn hyfforddiant datblygu rheolwyr i helpu i baratoi'r Cyngor ar gyfer heriau parhaus;
- £292,000 mewn ffioedd gofal maeth i sicrhau bod ffioedd y Cyngor yn agosach at lefel Cyngor Gwent sy'n talu'r lefelau gorau a chreu'r sylfaen i ddenu a chadw'r partneriaid gwerthfawr hyn ym maes gofal cymdeithasol plant;
- £90,000 yn yr adran addysg i gryfhau trefniadau llywodraethiant gydag ysgolion;
- £120,000 yng ngwasanaethau ieuencid y ddinas (cadarnhaodd yr Arweinydd yr ymgynghorir â'r Cyngor ieuencid ynglŷn â'r ffordd orau o ddefnyddio'r arian hwn);

- *£80,000 wrth gefnogi'r defnydd o gartrefi gwag unwaith eto drwy ostyngiadau yn y dreth gyngor gan ddefnyddio pwerau disgrisiwn y Cyngor (Cadarnhaodd yr arweinydd y bydd polisi manwl yn cael ei ddatblygu i gefnogi hyn);
- *£60,000 mewn rhyddhad ardrethi dewisol i grwpiau cymunedol ac ieuenctid ar draws y ddinas lle maent yn defnyddio eu hadeiladau eu hunain (cadarnhaodd yr Arweinydd y bydd polisi manwl yn cael ei ddatblygu i gefnogi hyn).
- £210,000 mewn mentrau glanhau a diogelwch yng nghanol y ddinas;
- £193,000 i'r gwasanaeth budd-daliadau.
- * Cadarnhaodd yr Arweinydd y bydd gwaith yn dechrau adeiladu ar y ddau fuddsoddiad uchod (wedi'u marcio *) cyn gynted â phosibl i ddarparu'r cymorth gorau posibl i fusnesau. Eisoes ar waith y mae'r cynlluniau rhyddhad ardrethi busnes sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru (busnesau bach a rhyddhad y stryd fawr). Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i weld pa gymorth y gellir ei ddatblygu o ran ardrethi busnes megis cronfa galedi neu ryddhad penodol.

Cadarnhaodd yr Arweinydd y gwelliannau canlynol i'r cynigion presennol:

- Dileu'r arbediad drafft o £75,000 o gontract Barnardos a chynnal y lefel bresennol o waith ataliol gan y bartneriaeth hon;
- Dileu'r arbediad drafft o £475,000 o ddefnyddio cronfeydd cyfalaf cyfredol i ariannu gwariant cyfalaf o 2019/20. Bydd hyn yn gwella hyblygrwydd gwariant cyfalaf y Cyngor yn y dyfodol (mae hyn yn cysylltu yn ôl â thrafodaethau ar yr adroddiad blaenorol);
- Dileu'r arbediad drafft o £45,000 yn 2020/21 ac yn y blynyddoedd i ddod, o atal y Cymorth Cludiant ôl-16 ar gyfer plant ysgol;
- Lleihau'r arbediad drafft mewn grantiau gofal cymdeithasol o £22,000 a pheidio â chynnwys y gostyngiadau a ddangosir ar gyfer Pobl yn Gyntaf a MIND;
- Lleihau'r cynnydd arfaethedig yn y dreth gyngor i 6.95% - cynnydd wythnosol band A-C o rhwng £1.00 a £1.33 yr wythnos. Mae dwy ran o dair o aelwydydd yn perthyn i'r bandiau hyn. Dyma'r Dreth Gyngor sydd ei hangen sy'n sail i'r gyllideb gyffredinol a bydd yn rhaid ei chytuno yng nghyfarfod y Cyngor ar 27 Chwefror.

Rhoddodd yr Arweinydd ragor o fanylion am gynigion y gyllideb:

O ran ysgolion, mae adran 4 yr adroddiad yn ymdrin ag ariannu ysgolion. Dyrannodd y gyllideb ddrafft gyllid ychwanegol newydd o tua £4.4 miliwn i ysgolion. Dyrannodd y setliad drafft gyllid parhaol ar gyfer costau sylfaen untro a ariennir ar hyn o bryd a byddai'r gyllideb ysgolion gyda'i gilydd wedi gweld cynnydd o tua £9 miliwn – neu 9.4%.

Dim ond £4.4 miliwn sy'n gyllid newydd ac ychwanegol. Y £4.4 miliwn yw'r cynnydd mewn costau a gyfrifwyd ar gyfer 2020/21, gan gynnwys costau ysgolion newydd a nifer y disgyblion sy'n tyfu, ac felly mae'n cynnal sefyllfa bresennol ysgolion, ond nid yw'n ei gwaethgu na'i gwella.

Ar hyn o bryd, mae ysgolion yn gorwario'n sylweddol ar eu cyllidebau – tua £3.5 miliwn yn seiliedig ar yr amcangyfrifon diweddaraf ac, ar y sail hon, ni fyddai gan ysgolion gronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ar y cyfan. Felly, nid oes hyblygrwydd i ariannu gorwariant pellach o gronfeydd wrth gefn yr ysgol ei hun a byddai'n cael ei ysgwyddo gan gyllideb gyffredinol y cyngor a chronfeydd wrth gefn eraill i ariannu unrhyw orwariant pellach. Cadarnhaodd yr Arweinydd nad oes unrhyw gronfeydd wrth gefn heb eu dyrannu i wneud hyn.

Bydd y cyllid ychwanegol o £1.4 miliwn yn helpu ysgolion i weithredu o fewn eu cyllid ond mae'n ddyletswydd ar ysgolion i gyflwyno eu cynlluniau arbed costau eu hunain yn ogystal â hyn. Mae hefyd yn rhagweld cynnydd mewn grantiau penodol i ysgolion; mae'n rhaid i ysgolion weithredu o fewn eu cyllid y flwyddyn nesaf a gwneud camau i adfer eu hunain o ddiffyg, lle mae diffyg yn bod.

Mae'r Cyngor wedi cydnabod y pwysau ariannol mewn ysgolion drwy ddyrannu'r swm llawn o gynnydd mewn costau a aseswyd y flwyddyn nesaf i ddechrau, ac mae bellach yn darparu hyd yn oed mwy o gyllid.

Symud ymlaen at y Dreth Gyngor. Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn hysbys iawn bod Treth Gyngor Casnewydd yn isel o gymharu â bron pob Cyngor arall yng Nghymru ac yn wir, ledled y DU. Fodd bynnag, mae i hyn oblygiadau ar gyllid y Cyngor:

- Mae cyllideb y flwyddyn bresennol tua £8.3 miliwn islaw lefel ei Asesiad Gwario Safonol – y swm hwnnw a gyfrifir gan Lywodraeth Cymru er mwyn i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau ar sail lefel safonol y Dreth Gyngor;
- O ran ei safle yng Nghymru ar ei sefyllfa gyllidebol yn erbyn yr Asesiad Gwario Safonol – mae Cyngor Dinas Casnewydd yn safle 19 o ran y rhai gaiff eu hariannu waethaf ar hyn o bryd;
- Casnewydd sydd â'r lefel Treth Gyngor ail isaf yng Nghymru.

Tan eleni, nid yw'r Grant Cynnal Refeniw, sy'n ariannu tua 75% o wariant net y Cyngor ar y gyllideb, wedi bod yn cynyddu. Ar yr un pryd, mae'r gyllideb wedi gorfod ymdopi â chynnydd mewn prisiau (chwyddiant) a mwy o alw ar y gyllideb, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol ac ysgolion. Yn y cyd-destun hwn, mae Treth Gyngor gymharol isel y Cyngor yn heriol iawn pan fydd yn anelu at roi'r cymorth gorau y gall i'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas a phoblogaeth sy'n tyfu.

Mae'r Cyngor wedi gwneud arbedion sylweddol dros lawer o flynyddoedd i fantoli cyllideb y Cyngor yn ogystal â chynyddu'r Dreth Gyngor. Mae'r gyllideb ar gyfer 2020/21 yn cael ei mantoli drwy tua £4.3 miliwn o incwm Treth Gyngor ychwanegol a £6k o arbedion. Mae'r cynnydd yn Nhreth Gyngor y ddinas ers 2015/16 wedi bod yn is na thua hanner y cynghorau eraill yng Nghymru.

Bydd y cynnydd a gyhoeddwyd heddiw yn:

- Dal i osod Casnewydd ymhlith y cynghorau â'r Dreth Gyngor isaf yng Nghymru;
- Bydd y gyllideb yn dal i fod yn is nag Asesiad Gwario Safonol y Cyngor – o £9.2 miliwn wrth i'r gyfradd safonol o dreth gyngor a dybir wrth gyfrifo Asesiadau Gwario Safonol y Cyngor godi 7.1%;
- Yn nhermau arian parod, mae'r cynnydd yn cynrychioli cynnydd wythnosol o:
 - £1.00 ar gyfer aelwyd Band A;
 - £1.16 ar gyfer aelwyd Band B ac,
 - £1.33 ar gyfer aelwyd Band C.
 - Cadarnhaodd yr arweinydd fod cymorth ar gael drwy gynllun gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer yr aelwydydd hynny sy'n gymwys i gael y gostyngiad;
- Bydd y cynnydd yn galluogi'r Cyngor i fuddsoddi mewn gwasanaethau:
 - £0.5 miliwn mewn ysgolion
 - £4 miliwn mewn gofal cymdeithasol, ac,

- £800,000 i gyflawni'r addewidion a nodir yn y Cynllun Corfforaethol.

Dywedodd yr Arweinydd fod y gyllideb fantoledig hon wedi'i rhoi at ei gilydd er budd pennaf dinasyddion Casnewydd.

Gwahoddodd yr Arweinydd sylwadau gan ei chyd-aelodau yn y Cabinet:

Cytunodd Aelodau'r Cabinet fod angen mwy o gyllid gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru er mwyn darparu'r lefel gywir o wasanaethau a ddisgwylir gan bobl Casnewydd; rhaid i ysgolion aros o fewn y cyllidebau a ddyrennir iddynt. Diolchodd pawb i gydweithwyr a staff am y gwaith a wnaed i gyrraedd cyllideb gytbwys.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Cabinet am gymryd y safbwynt tymor hwy hwn a chadarnhaodd ei bod yn cefnogi'r Cabinet yn llwyr i fwrw ymlaen â'r cynigion hyn a'u parodwydd i edrych ar flaenoriaethau a buddsoddiad ar gyfer y dyfodol er mwyn lleihau'r pwysau tymor hir.

Diolchodd yr Arweinydd i swyddogion, cyd-aelodau o'r Cabinet, partneriaid a dinasyddion Casnewydd am eu cyfraniad drwy gydol proses y gyllideb.

Gofynnodd yr adroddiad y canlynol gan y Cabinet:

O ran cynigion y gyllideb a rhagamcanion tymor canolig (adran 3-6)

1. nodi'r ymgynghoriad ffurfiol ar y gyllideb fel yr amlinellir yn adran 6 a'r adborth a gafwyd, a ddangosir yn atodiadau 1 i 4b.
2. nodi crynodeb yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gynigion y gyllideb, a ddangosir yn atodiad 9.
3. adolygu holl gynigion y gyllideb ddrafft (atodiad 5-6), fel y'u crynhowyd o fewn y rhagamcanion ariannol tymor canolig (Atodiad 7) a dyrannu'r hyblygrwydd ariannol a ddangosir yn nhabl 3. Wrth wneud hynny, cytuno ar weithredu'r rhaglen arbedion tair blynedd lawn a ddaw y ei sgil, gan gynnwys yr holl fuddsoddiadau cyllidebol a'r dewisiadau arbed.
4. cytuno ar ffioedd a thaliadau 2020/21 y cyngor a ddangosir yn atodiad 11.

O ran y gyllideb refeniw gyffredinol a'r dreth gyngor yn ei sgil ar gyfer 20/21 (adran 7 ac 8)

5. nodi argymhellion y Pennaeth Cyllid bod balansau Cronfeydd Cyffredinol gofynnol yn cael eu cadw ar £6.5 miliwn, cadarnhau cadernid y gyllideb gyffredinol sy'n sail i'r cynigion, a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yng nghyd-destun cronfeydd eraill a glustnodwyd a chyllideb refeniw wrth gefn o £1.5 miliwn.
6. nodi lefel gyfredol y dreth gyngor ar gyfer Cyngor Dinas Casnewydd a gwerth ariannol amrywiol gynnydd canrannol a sut mae hyn yn cymharu â lefelau treth gyngor mewn cynghorau eraill fel y dangosir yn nhabl 5.
7. argymhell cyllideb net gyffredinol ar gyfer y Cyngor a'r dreth gyngor a ddaw yn ei sgil i'r cyngor llawn, gan nodi y bydd penderfyniad ffurfiol, fydd

yn cynnwys Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent a phraeseptau Cyngorau Cymuned, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 27 Chwefror.

8. cymeradwyo gwariant a defnydd o gronfeydd wrth gefn yn unol â'r crynodeb a ddangosir yn atodiad 10b, gan nodi eu bod yn seiliedig ar gynigion manwl a adolygwyd gan y Cabinet yn eu cyfarfod ym mis Rhagfyr 2019.

Penderfyniad:

Cytunodd y Cabinet ar bob un o'r cynigion uchod. Cytunodd y Cabinet ar newidiadau pellach fel a ganlyn:

Buddsoddiad o:

- £1.4 miliwn yn ychwanegol mewn cyllidebau ysgolion;
- £250,000 yn ychwanegol yng nghyllidebau TGCh y Cyngor i gyflymu ffyrdd modern o weithio a digideiddio;
- £70,000 mewn hyfforddiant datblygu rheolwyr i helpu i baratoi'r Cyngor ar gyfer heriau parhaus;
- £292,000 mewn ffioedd gofal maeth i sicrhau bod ffioedd y Cyngor yn agosach at lefel Cyngor Gwent sy'n talu'r lefelau gorau a chreu'r sylfaen i ddenu a chadw'r partneriaid gwerthfawr hyn ym maes gofal cymdeithasol plant;
- £90,000 yn yr adran addysg i gryfhau trefniadau llywodraethiant gydag ysgolion;
- £120,000 yng ngwasanaethau ieuencid y ddinas. Cadarnhaodd yr Arweinydd yr ymgynghorir â'r Cyngor ieuencid ynglŷn â'r ffordd orau o ddefnyddio'r arian hwn;
- £80,000 wrth gefnogi'r defnydd o gartrefi gwag unwaith eto drwy ostyngiadau yn y dreth gyngor gan ddefnyddio pwerau disgrisiwn y Cyngor. Cadarnhaodd yr Arweinydd y bydd polisi manwl yn cael ei ddatblygu i gefnogi hyn;
- £60,000 mewn rhyddhad ardrethi dewisol i grwpiau cymunedol ac ieuencid ar draws y ddinas lle maent yn defnyddio eu hadeiladau eu hunain. Cadarnhaodd yr Arweinydd y bydd polisi manwl yn cael ei ddatblygu i gefnogi hyn.
- £210k mewn mentrau glanhau a diogelwch yng nghanol y ddinas;
- £193,000 i'r gwasanaeth budd-daliadau.

Cytunwyd y bydd y newidiadau canlynol yn cael eu gwneud i'r cynigion presennol:

- Dileu'r arbediad drafft o £75,000 o gontract Barnardos a chynnal y lefel bresennol o waith ataliol gan y bartneriaeth hon;
- Dileu'r arbediad drafft o £475,000 o ddefnyddio cronfeydd cyfalaf cyfredol i ariannu gwariant cyfalaf o 2019/20. Bydd hyn yn gwella hyblygrwydd cyfalaf y Cyngor yn y dyfodol;
- Dileu'r arbediad drafft o £45,000 yn 2020/21 ac yn y blynyddoedd i ddod, o atal y Cymorth Cludiant ôl-16 ar gyfer plant ysgol;
- Lleihau'r arbediad drafft mewn grantiau gofal cymdeithasol o £22,000 a pheidio â chynnwys y gostyngiadau a ddangosir ar gyfer Pobl yn Gyntaf a MIND;
- Lleihau'r argymhelliad i gynyddu'r Dreth Gyngor i 6.95% i'r Cyngor.

Penderfyniad:

Argymhellodd y Cabinet fod y gyllideb, yn unol â'r newidiadau y cytunwyd arnynt ac a nodir uchod, yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w hystyried a'i phenderfynu yn y cyfarfod nesaf a gynhelir ddydd Iau 27 Chwefror 2020.

6 Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4: Haf 2019

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a chadarnhaodd fod adroddiad ar ganlyniadau cyfnod allweddol 4 yn cael ei adrodd i'r Cabinet bob blwyddyn. Mae 2019 yn nodi'r set gyntaf o ddata a ryddhawyd yn unol â'r mesurau perfformiad interim, felly, ni fu'n bosibl gwneud cymariaethau â chyrhaeddiad blaenorol. Amlinellodd yr Arweinydd y mesurau perfformiad dros dro:

Y mesur Capio Naw:

- Llythrennedd
 - Rhifedd
 - Gwyddoniaeth
 - 6 TGAU neu gymwysterau cyfatebol
- Llythrennedd
 - Rhifedd
 - Gwyddoniaeth
 - Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y mesurau perfformiad interim yn seiliedig ar sgôr pwyntiau:

- Yn y sgôr Capio Naw, mae'r hyn sy'n gyfwerth â 9 TGAU gradd C yn 360 pwynt
- Mae llinell ffit orau o ran ysgolion unigol â'r rhanbarth wedi'i chynhyrchu yn seiliedig ar gyrhaeddiad a chanran Prydau Ysgol am Ddim o bob ysgol.

Cyflwynodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau i siarad yn fanylach am yr adroddiad.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Giles mai er gwybodaeth yn unig y mae'r adroddiad ac mae'n nodi canlyniadau haf 2019 o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn ysgolion Casnewydd.

Mae'r mesurau perfformiad interim yn gweithio ar system sgorio pwyntiau, yn hytrach nag adrodd ar ganran y dysgwyr a gyrhaeddodd safon benodol, a chanolbwyntio ar yr ysgolion unigol yn hytrach na chyfuno data â lefel awdurdod lleol.

Mae'r adroddiad yn cynnwys llinell ffit orau sy'n seiliedig ar berfformiad pob ysgol ar draws Consortiwm De-ddwyrain Cymru. Yn seiliedig ar y llinell ffit orau, mae nifer o ysgolion yng Nghasnewydd a berfformiodd yn unol â, neu'n well na, y disgwyliad a fodelwyd yn haf 2019. Mae'r rhain yn cynnwys Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant, Ysgol Uwchradd Llanwern, Ysgol Bassaleg, Ysgol St Julian ac Ysgol Uwchradd Casnewydd. Dwedodd yr Aelod Cabinet ei bod yn bwysig ystyried bod rhai ysgolion yng Nghasnewydd yn gwasanaethu poblogaethau amrywiol, gan gynnwys nifer sylweddol o ddysgwyr sydd efallai'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol neu sydd â chyfraddau symudedd uchel i mewn ac allan o'r ddinas, felly nid yw cymharu perfformiad yn uniongyrchol rhwng ysgolion bob amser yn briodol.

Mae'r adroddiad yn cynnwys tabl sy'n dangos y gwahaniaeth ym mherfformiad dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn erbyn y rhai nad ydynt yn gymwys. Un o flaenoriaethau Gwasanaeth Addysg y Cyngor yw lleihau'r bwlch ym mherfformiad y ddau grŵp hyn o ddysgwyr. Fodd bynnag, wrth ddadansoddi'r tabl hwn mae'n bwysig nodi maint carfan y ddau grŵp o ddysgwyr. Mae gan rai ysgolion ganran lawer llai o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu ag eraill. Unwaith eto, mae'r gwahaniaeth

hwn ym maint y garfan yn golygu nad yw'n briodol cymharu'r bwlich rhwng perfformiad ysgolion.

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet ei bod yn bwysig nodi mai dim ond un Mesur yw'r data perfformiad hwn a ddefnyddir i asesu pa mor dda y mae ysgol yn gwneud.

Mae categorreiddio cenedlaethol yn llywio faint o gymorth allanol sydd ei angen ar ysgol i wella:

- Mae ysgolion categorreiddiad coch yn cael hyd at 25 diwrnod o gymorth;
- Mae ysgolion categorreiddiad ambr yn cael hyd at 15 diwrnod o gymorth;
- Mae ysgolion categorreiddiad melyn yn cael hyd at 10 diwrnod o gymorth;
- Mae ysgolion categorreiddiad gwyrdd yn cael 4 diwrnod o gymorth gan y GCA.

Newidiadau nodedig yn y categorreiddio eleni yw:

- Mae Ysgol Uwchradd Llanwern wedi newid o gategori coch i ambr - cyflwynodd yr Aelod Cabinet ei llongyfarchiadau a'i diolch i Bennaeth Ysgol Uwchradd Llanwern am y cyrhaeddiad hwn, ac,
- mae Ysgol John Frost wedi newid o'r categori ambr i felyn.

Nododd yr adroddiad fod Ysgol Gyfun Gwent Is Coed ac Ysgol Uwchradd St Joseph yn parhau i fod yn ysgolion categorreiddiad gwyrdd.

Mae'r ysgolion sy'n dal yn goch neu sy'n cael eu categorreiddio'n ambr yn gwneud cynnydd ond yn dal i fod angen lefelau uwch o gymorth gan y GCA.

Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, cafodd ysgol uwchradd Llanwern ei thynnu o gategori statudol 'gwelliant sylweddol' Estyn oherwydd y cynnydd cadarnhaol a wnaed gan yr ysgol. Yn ogystal, derbyniodd Ysgol Bassaleg arolygiad cadarnhaol gan Estyn lle cyflawnodd bedwar dyfarniad da ac un farn ragorol. Estynnodd Estyn wahoddiad i Ysgol Bassaleg baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith o gwmpas cynnwys grwpiau agored i niwed mewn cynrychiolaeth i fyfyrwyr a'i rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol a thiworial ar gyfer ei rhannu ar wefan Estyn. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet ei bod hi a'r Cynghorydd Mark Spencer (Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog) wedi ymweld ag Ysgol Bassaleg yn gynharach yn y dydd i ddathlu'r cymorth y mae'r ysgol yn ei roi i blant sydd â rhieni yn y lluoedd arfog.

Mae presenoldeb yn ddangosydd pwysig arall o berfformiad yr ysgol. Yn 2018/19, ni roddwyd yr un ysgol uwchradd yng Nghasnewydd yn y chwarter isaf am eu cyfradd presenoldeb, o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn 2018/19, roedd presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yng Nghasnewydd wedi'i raddio'n 7^{fed} allan o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Casnewydd wedi gwella 15 safle dros y pedair blynedd diwethaf, ac yn 2018/19 roedd tair o ysgolion uwchradd Casnewydd yn y chwarter uchaf o ran eu cyfradd presenoldeb; mae hyn yn rhywbeth i'w ddathlu.

Llongyfarchodd yr Aelod Cabinet yr holl staff addysg am y gefnogaeth a roddwyd i'r holl ysgolion gan longyfarch yr ysgolion uwchradd ar eu llwyddiannau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd yr Arweinydd yn falch o glywed am welliant yr ysgolion a diolchodd i'r holl randdeiliaid am lefel yr ymrwymiad a roddwyd i addysg yng Nghasnewydd.

Penderfyniad:

Cytunodd y Cabinet ar gynnwys yr adroddiad.

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y paratodau Brexit a gynhelir gan y Cyngor, a chadarnhaodd ei fod yn ddilyniant i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Hydref 2019.

Cadarnhaodd yr adroddiad, i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd yn ffurfiol ar 31 Ionawr ac mae wedi dechrau ar Gyfnod Pontio o 11 mis.

Rhagwelir na fydd unrhyw newidiadau sylweddol i'r modd y mae busnesau yng Nghasnewydd/y DU yn masnachu gyda'r UE neu mewn perthynas â symud pobl rhwng yr UE a'r DU a'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu yn y Cyngor.

Bydd yn bwysig i leisiau Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gael eu clywed ar y cyfleoedd, y risgiau a'r effeithiau posibl i fusnesau a thrigolion sy'n byw yng Nghasnewydd a Chymru.

Mae gan y DU tan 1 Gorffennaf 2020 i ymestyn y cyfnod pontio y tu hwnt i'r 31 Rhagfyr 2020 (*Mae potensial i ymestyn hyn hyd at 31 Rhagfyr 2022*). Fodd bynnag, ar y cam hwn mae Llywodraeth y DU wedi datgan na fydd yn ystyried ymestyn y terfyn amser ar ôl y flwyddyn hon.

Os na chytunir ar gytundeb masnach a'i fod ar waith erbyn diwedd 2020, bydd yn rhaid i'r DU syrthio'n ôl ar delerau Sefydliad Masnach y Byd a bydd yn arwain at Brexit heb gytundeb.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod swyddogion y Cyngor yn parhau i fonitro'r risgiau posibl a'r effeithiau ar ddarparu gwasanaethau yng Nghasnewydd drwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen Brexit y swyddogion dan arweiniad y Cyfarwyddwr Lle.

Mae Aelodau Cabinet a Swyddogion o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen hefyd yn cynrychioli'r Cyngor ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Llywodraeth Cymru (LIC) a chyfarfodydd Cymru gyfan/rhanbarthol eraill ar Brexit.

Mae risg Brexit y Cyngor yn parhau i gael ei monitro drwy Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor sy'n cael ei hadrodd i'r Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio bob chwarter.

Ers yr adroddiad diwethaf, mae'r Cyngor wedi ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol:

Mae Gwasanaeth Cofrestrydd y Cyngor wedi lansio gwasanaeth gwirio hunaniaeth i gefnogi ceisiadau Statws Preswlydd Sefydlog yr UE.

- Mae ffigurau'r Swyddfa Gartref (Medi 2019) yn dangos i 2,290 o geisiadau CPSDdUE gael eu cwblhau ar gyfer dinasyddion yr UE yng Nghasnewydd.
- Mae'r Cyngor yn cydlynu'r ddarpariaeth wythnosol o ran darpariaeth ar gyfer dinasyddion yr UE mewn partneriaeth â holl wasanaethau'r sector gwirfoddol a ariennir i gefnogi ceisiadau i'r CPSDdUE.

Ym mis Rhagfyr 2019 derbyniodd y Cyngor Grant Tlodi Bwyd o £80,000 gan CLILC/Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i fynd i'r afael â thlodi sy'n gysylltiedig â bwyd a allai gael ei achosi o ganlyniad i Brexit.

- Caiff yr arian hwn ei ddefnyddio i dargedu ardaloedd anghenus drwy Hybiau'r Cyngor a bydd hefyd ar gael i elusennau lleol, sefydliadau'r trydydd sector a grwpiau cymunedol i wneud ceisiadau am gyllid i'w galluogi i gyflawni eu mentrau a darparu manteision hirdymor i'r ddinas.

Derbyniodd y Cyngor £45,000 drwy CLILC ar gyfer y rhaglen grant atal digartrefedd a fydd yn galluogi'r Cyngor i ddatblygu app Casnewydd ar gyfer mudwyr sy'n dymuno cael gwybodaeth am Gasnewydd, cadw tenantiaethau diogel, darparu Cardiau Gwybodaeth Digartref a fydd yn galluogi mudwyr digartref ar ble a sut i gael gafael ar wasanaethau lleol, a darparu hyfforddiant i staff i gefnogi'r digartref nad oes hawl ganddynt i gael arian cyhoeddus.

Mae Tîm Datblygu Economaidd y Cyngor wedi bod yn ymgysylltu â busnesau lleol yng Nghasnewydd ac yn eu helpu i gael gafael ar wybodaeth a chanllawiau sy'n gysylltiedig â Brexit.

Bydd trefniadau cyfathrebu i ddarparu gwybodaeth i gynghorwyr, staff, trigolion, cymunedau a busnesau y gallai Brexit effeithio arnynt yn parhau drwy gydol 2020 ochr yn ochr ag adroddiadau rheolaidd gan y Cabinet.

Mae'r tabl wedi'i atodi yn Atodiad 1 yr adroddiad yn rhoi manylion llawn ar draws y meysydd a gwmpesir gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Croesawodd yr Arweinydd sylwadau gan ei chyd-aelodau yn y Cabinet:

Soniodd y Cynghorydd Truman fod Casnewydd yn Awdurdod Porthladd prysur iawn ac mae'n bwysig cael y fargen orau bosibl i gwmnïau sy'n masnachu gydag Ewrop.

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gytundeb y Cabinet i dderbyn cynnwys yr adroddiad ac i dderbyn diweddiadau rheolaidd wrth i gynnydd gael ei wneud drwy'r cyfnod pontio.

Penderfyniad:

Cytunodd y Cabinet dderbyn yr adroddiad ac i'r Cabinet/Aelodau'r Cabinet gael y wybodaeth ddiweddaraf fel rhan o'u portffolio.

8 Strategaeth Twf Economaidd

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a chadarnhaodd bod Strategaeth Twf Economaidd Casnewydd wedi'i mabwysiadu yn 2015. Roedd y Strategaeth yn ymrwmo i weledigaeth a fframwaith 10 mlynedd ar gyfer adeiladu economi Casnewydd drwy:

- a. Gyflawni ffyniant a rennir;
- b. Creu amgylchedd economaidd rhagorol, a,
- c. Symud Casnewydd yn uwch ar y gadwyn werth.

Cytunwyd ar nifer o ganlyniadau a nodau i sicrhau y gall pobl yng Nghasnewydd gyflawni eu potensial; mae gan Gasnewydd amgylchedd cystadleuol; mae Casnewydd yn lle gwell i fyw, ac mae gan fusnesau yng Nghasnewydd gyfle i ffynnu.

Cadarnhaodd yr Arweinydd, er bod y canlyniadau a'r nodau hyn yn parhau'n berthnasol, ar ôl pum mlynedd, bod angen ailedrych ar y Strategaeth a sicrhau ei bod yn parhau'n addas at y diben ac yn gyson ag amcanion strategol ehangach y Cyngor.

Mae Casnewydd fel Dinas wedi newid ers 2015 ac mae bellach yn ddinas fwy cystadleuol; yn cael dylanwad cynyddol mewn sectorau gwerth uchel; yn elwa o sector twristiaeth sy'n ehangu'n gyflym ac sy'n gartref i Ganolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru newydd sbon; mae'n darparu mwy o gyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer gweithwyr yn y dyfodol, ac, mae'n croesawu partneriaethau rhanbarthol newydd ac ymrwymadau'r cyngor yng Nghynllun Llesiant Casnewydd.

Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod Strategaeth 2015 wedi cael nifer o lwyddiannau o ran sicrhau twf economaidd gan gynnwys:

- Cynnydd o 11.7% mewn cyflogau wythnosol gros cyfwerth ag amser llawn;
- Cynnydd o 14.9% yn y cyfraddau dechrau busnes;
- Cynnydd o 1.7 miliwn yn nifer yr ymwelwyr, ac,
- Cynnydd o £405 miliwn yn GYC Casnewydd.

Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn cydnabod bod rhywfaint o waith i'w wneud o hyd, gan leihau'r bwch cyflog rhwng y rhywiau; gwella canfyddiad y cyhoedd o Gasnewydd, ac annog a chefnogi preswylwyr hunangyflogedig.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y strategaeth wedi'i diweddarau yn cydnabod cryfderau a heriau'r ddinas ac yn cynnig nodau newydd i gefnogi'r canlyniadau gwreiddiol. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i bethau megis: cynyddu canran trigolion Casnewydd sydd ag NVQ lefel 4 ac uwch; mynd i'r afael â phrinder sgiliau mewn sectorau allweddol, gan gynnwys digidol, lletygarwch ac adeiladu; cefnogi'r gwaith o ddarparu mwy o ofod swyddfa Gradd A, a llety ar gyfer gweithio, yn ogystal â darparu cartrefi cynaliadwy o ansawdd da; datblygu rhaglen lleihau carbon ar gyfer y sefydliad sydd â gweledigaeth carbon niwtral, a chynnal canol y ddinas fel lle deniadol i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Caiff yr holl nodau hyn eu cynnwys yn y cynllun cyflawni manwl sydd wedi'i gynnwys yn nogfen y Strategaeth wedi'i diweddarau.

Croesawodd yr Arweinydd sylwadau gan ei chyd-aelodau yn y Cabinet.

Cytunodd cyd-Aelodau'r Cabinet ar y canlynol:

- Casnewydd yw'r Porth i Gymru ac mae ganddi bopeth sy'n angenrheidiol i ddarparu ansawdd bywyd da i'w dinasyddion ac i ymwelwyr.
- Mae angen positifrwydd yn hytrach na negyddiaeth i adeiladu ar enw da Casnewydd a meithrin mwy o falchder lleol a dinesig;
- Mae cynnydd mewn prisiau tai yn ddangosydd o bobl sydd eisiau byw yng Nghasnewydd;
- Mae twristiaeth ar gynnydd fel y gwelwyd mewn cyflwyniad a wnaed yn ystod Cyfarfod Ward Caerllion a gynhaliwyd ar 11 Chwefror. Mae arddangosfa hefyd yn cael ei chynnal ar hyn o bryd sy'n canolbwyntio ar y Gwastadeddau Byw hanesyddol a'r bobl sy'n byw yn y Gwastadeddau – mae'r arddangosfa i'w gweld yng Nglan yr Afon a Bae Caerdydd;
- Cyflawni cyfraddau gwych ar gyfer y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant – mae hyn yn ymwneud â sicrhau dyfodol mwy disglair i bobl ifanc Casnewydd;

Gorffennodd yr Arweinydd drwy gytuno â holl sylwadau ei chyd-Aelodau a thynnodd sylw at ba mor bwysig yw rheoli cyrchfannau i werth yr economi yng Nghasnewydd. Aeth ymlaen i ddweud bod Casnewydd, i raddau helaeth, yn gymuned wledig â chraidd trefol mawr gydag atyniadau fel y morglawdd, y gwlyptiroedd, y gwastadeddau byw, ac ati, sydd i gyd yn bwysig i lesiant dinasyddion Casnewydd.

Cadarnhaodd yr Arweinydd ei bod wedi ymweld â'r cynlluniau tai sy'n cyfrannu at amgylchedd canol dinas cymysg ynghyd â'r cyfleoedd gwych eraill sy'n datblygu o fewn canol y ddinas, gan gynnwys y gwesty newydd a hefyd, cynlluniau sy'n mynd rhagddynt a fydd yn darparu swyddfeydd lefel uchel. Mae'r Arweinydd hefyd yn falch iawn o brosiect Arcêd y Farchnad ac er ei bod yn brosiect heriol iawn, roedd yn falch o weld bod y sgaffaldiau wedi'u codi a bod gwaith adfywio'r arcêd ar y gweill.

Mynychodd yr Arweinydd ddigwyddiad 'cwrdd â'ch cymydog busnes' yn ddiweddar a oedd ynghlwm â Chyngor Torfaen lle'r oedd dros 100 o fusnesau wedi'u cynrychioli; roedd y digwyddiad yn cynnwys amrywiaeth o bobl/busnesau ac yn arddangos y gwerth o fewn y rhanbarth o entrepreneuriaeth a chreadigrwydd; digwyddiad a oedd yn dangos bod busnesau am fod yn agored i fusnes yng Nghasnewydd.

Cadarnhaodd yr Arweinydd ei bod yn hyderus bod y Strategaeth ar ei newydd wedd yn adlewyrchu'r hyn y mae angen i'r Cyngor ei wneud i annog a chynnal twf economaidd yn y ddinas er budd yr holl drigolion, partneriaid a busnesau am y 5 mlynedd nesaf ac roedd yn argymhell heb unrhyw amheuaeth fod y Strategaeth wedi'i diweddarau yn cael ei chymeradwyo. Diolchodd yr Arweinydd i'r tîm am y gwaith gwych a wnaed ar hyn ac am y weledigaeth fawr wrth gyflwyno'r Strategaeth.

Gofynnwyd i'r Cabinet gytuno ar y cynnig i fynd ati i fabwysiadu'r Strategaeth Twf Economaidd wedi'i diweddarau er mwyn sicrhau bod Casnewydd yn parhau i ddiwallu anghenion cyfredol ac yn hwyluso cyfleoedd ar gyfer twf a buddsoddiad tan 2025.

Penderfyniad:

Cytunodd y Cabinet i fabwysiadu'r Strategaeth Twf Economaidd ddiweddaraf.

9 **Rhaglen Waith**

Cyflwynodd yr Arweinydd Raglen Waith y Cabinet.

Penderfyniad:

Cytunodd y Cabinet i'r rhaglen wedi'i diweddarau.

10 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Mercher 18 Mawrth 2020, am 4.00 pm yn Ystafell Bwyllgor 1, yn y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd.